Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

2 Awst 2011

Annwyl Gyfaill

Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau**'r DU**

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r arfer o roi pwerau i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol yn Neddfau San Steffan, yn ogystal â materion cysylltiedig fel gweithredu Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli. Bydd hefyd yn ystyried yr arfer o ddynodi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i weithredu rhwymedigaethau'r Undeb Ewropeaidd. Yr egwyddor a fydd yn cael ei ymchwilio yw a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd cyfrifoldeb llwyr dros ddirprwyo pwerau o'r fath i Weinidogion Cymru.

Cefndir

Mae'r canlyniad cadarnhaol yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 3 Mawrth eleni yn golygu bod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol eang. Mae'r cymhwysedd hwn wedi'i nodi yn fanwl yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae rhai darnau sylweddol o ddeddfwriaeth sydd gerbron Senedd y DU ar hyn i bryd, fel y Bil Cyrff Cyhoeddus, yn ceisio dirprwyo pwerau pwysig i Weinidogion Cymru. Rhagwelir y bydd deddfwriaeth San Steffan yn parhau i roi pwerau i Weinidogion Cymru heb gyfranogiad uniongyrchol y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys mewn meysydd lle mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i edrych ar sut mae'r trefniadau hyn yn gweithredu. Bydd yr ymchwiliad yn edrych yn benodol ar sut y caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ei weithredu, y canllawiau technegol ar gyfer adrannau Whitehall a nodir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli a'r prosesau ar gyfer cytuno ar gydsyniad deddfwriaethol drwy Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried pa wersi a ddysgwyd hyd yn hyn y gellir eu cymhwyso i drefniadau ar gyfer dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor yn cael ei lywio gan yr egwyddor gyffredinol na ddylid rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli heb ganiatâd gwybodus y Cynulliad Cenedlaethol, ac y dylai'r Cynulliad allu gwneud gwaith craff priodol yn ystod y broses dan sylw.

Ffon / Tel: 029 2089 8154
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail: CLA.Committee@wales.gov.uk

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried rhagor o'r wybodaeth gefndirol, a gellir gweld rhagor o fanylion yn papur atodedig a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad.

Gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar:

- Hyd a lled y gwaith craffu y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei wneud ar hyn o bryd ar y pwerau dirprwyedig a roddir i Weinidogion Cymru drwy ddarpariaethau yn Neddfau'r DU a thrwy fecanweithiau statudol eraill;
- I ba raddau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gallu craffu yn gadarn ar brosesau o'r fath drwy ei Reolau Sefydlog;
- Pa mor berthnasol yw Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli Llywodraeth y DU yng ngoleuni datblygiadau cyfansoddiadol diweddar Cymru;
- Y gweithdrefnau ar gyfer Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol o'u cymharu â'r sefyllfa yn y deddfwrfeydd datganoledig eraill;
- Unrhyw fater arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad.

Dylid anfon ymatebion, naill ai ar ffurf copi caled neu'n electronig, i'r cyfeiriad canlynol erbyn 30 Medi 2011 fan bellaf:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

e-bost: CLA.Committee@wales.gov.uk

Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion ar ôl toriad yr haf.

Mae rhagor o wybodaeth gefndirol am y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a chanllawiau ar sut i gyflwyno tystiolaeth wedi'u hatodi i'r llythyr hwn.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Steve George, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8242 neu Olga Lewis, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8154.

Yn gywir

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Ffon / Tel: 029 2089 8154
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: CLA.Committee@wales.gov.uk

Atodiad

YMCHWILIAD I ROI PWERAU I WEINIDOGION CYMRU YN NEDDFAU SAN STEFFAN

Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cylch gwaith y Pwyllgor yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21 ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Mae'r Pwyllgor yn adrodd ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau ar sail Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw'r darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad a Biliau Senedd y DU sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth, ac yn adrodd ar hynny.

Canllawiau ar gyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig

Wrth baratoi eich cyfraniad, dylech gadw'r pwyntiau a ganlyn mewn cof:

***Y wybodaeth i'w chynnwys***

Fel rheol, dylai tystiolaeth ysgrifenedig gynnwys dogfen hunangynhwysol yn ogystal â llythyr eglurhaol. Dylid cyflwyno tystiolaeth sydd mor gryno â phosibl (ni ddylai'r memorandwm fod yn fwy na chwe thudalen A4 o hyd)

Dylai'r llythyr eglurhaol nodi:

▪ enw a manylion cyswllt yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r dystiolaeth;
▪ a yw'r dystiolaeth yn cael ei chyflwyno ar ran sefydliad neu unigolyn;
▪ unrhyw gais i gyflwyno tystiolaeth lafar;
▪ unrhyw gais i'r Pwyllgor drin rhan neu'r cyfan o'r dystiolaeth yn gyfrinachol, gan nodi'r rhesymau dros hynny.

(Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn i'r cyhoedd graffu arnynt ac fel bod Aelodau'r Cynulliad yn gallu'u gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgor.

Os nad ydych am i ni gyhoed**di eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth a'ch rhesymau dros** hynny.

Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol na fydd eich tystiolaeth o bosibl yn dylanwadu cymaint ar ystyriaethau'r Pwyllgor. Dylech fod yn ymwybodol

hefyd y gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a roddir gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth am gwmni, a hynny yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.)

Dylai'r memorandwm gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

▪ crynodeb o'r prif bwyntiau a wnaed yn eich tystiolaeth;
▪ cyflwyniad cryno i'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r dystiolaeth, gan nodi eu maes arbenigedd;
▪ unrhyw wybodaeth ffeithiol sydd gennych i'w chynnig y gallai'r Pwyllgor ei defnyddio i ddod i gasgliadau, neu y gellir ei chyflwyno i dystion eraill i weld beth yw eu hymateb;
▪ unrhyw argymhellion y mae'r cyflwynydd am i'r Llywodraeth, neu rywrai eraill, eu gweithredu ac y gallai'r Pwyllgor eu hystyried a'u cynnwys yn ei adroddiad i'r Cynulliad;
▪ Dylai eich ymateb drafod y materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried, yn enwedig y rhai a amlinellwyd yn y gwahoddiad hwn i gyflwyno tystiolaeth.

(Dylech gymryd gofal rhag cynnwys sylwadau am faterion sydd gerbron llys barn ar hyn o bryd, neu faterion sydd ar fin mynd drwy lys barn. Os ydych yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd, dylech drafod â Chlerc y Pwyllgor sut y gallai hyn effeithio ar y dystiolaeth ysgrifenedig y gallwch ei chyflwyno.)

Sut i fformadu eich tystiolaeth

Rhai pwyntiau i'w nodi:

▪ Dylid rhifo paragraffau i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod y dystiolaeth yn ystod sesiynau llafar.
▪ Mae croeso i chi gynnwys deunydd atodol gyda'ch memorandwm—er enghraifft taflenni neu erthyglau o gyfnodolion—ond dylech sicrhau bod eich memorandwm yn hunangynhwysol.
▪ Os ydych am ddefnyddio lliw yn eich tystiolaeth, sicrhewch fod modd gwneud synnwyr o'r dystiolaeth ar ffurf du a gwyn hefyd oherwydd gall aelodau o'r Pwyllgor benderfynu defnyddio fersiynau sydd wedi'u llungopïo yn ystod y Pwyllgor.
▪ Os ydych yn cyflwyno tystiolaeth ar ffurf electronig, dylai'ch memorandwm fod ar fformat Microsoft Word, Rich Text neu PDF.